Cyngor Sir Caerfyrddin

# GWEITHGOR RISGIAU EIDDO AC ATEBOLRWYDD

## CYLCH GWAITH

Y Pwrpas:

I gefnogi'r Grŵp Llywio Rheoli Risg a sicrhau ei fod yn gallu cynnal ffocws strategol.

Bydd y Grŵp yn:

Ystyried materion eiddo ac atebolrwydd ar lefel weithredol, monitro'r risgiau a bod yn rhagweithiol wrth nodi atebion.

Darparu fforwm aml-wasanaeth i rannu gweithdrefnau ac arferion gorau ar gyfer ymdrin â materion risgiau eiddo ac atebolrwydd.

Ystyried cynigion am gymorth ariannol gan y Gyllideb Rheoli Risg a phan argymhellir eu cymeradwyo, cyfeirio at y Gweithgor Risgiau Trafnidiaeth i'w cymeradwyo'n derfynol

Adolygu ystadegau am hawliadau eiddo ac atebolrwydd i helpu i nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a hyrwyddo mentrau i leihau amlygiad yr Awdurdod i'r risgiau hyn.

Adolygu hawliadau atebolrwydd sydd wedi'u setlo i werthuso camau a gymerir gan adrannau i osgoi digwyddiadau tebyg yn y dyfodol a nodi unrhyw wersi y gellir eu dysgu gan adrannau eraill a'r Awdurdod ehangach.

Amlder y Cyfarfodydd:

Cynhelir cyfarfodydd bob tri mis, ond os bydd gofyn yn benodol am gyfarfod gall unrhyw aelod sefydlog o'r Grŵp ofyn am gyfarfod.

Atebolrwydd

Mae Cofnodion y Gweithgor yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Rheoli Risg.

Mae Cofnodion y Grŵp Llywio yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Aelodaeth

Bydd yr aelodau fel a ganlyn:

Pennaeth Datblygu Economaidd ac Eiddo

Hyrwyddwyr / Cynrychiolwyr Risg Adrannol

Uwch-swyddog Risg

Swyddog Hawliadau Technegol (Ysgrifennydd Cofnodion)

Cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch

Cynrychiolydd Cynnal a Chadw Eiddo / Cydymffurfiaeth

Partner Risg Allanol (Rôl ymgynghorol)

## Gweinyddiaeth

Bydd Gweinyddiaeth ar gyfer y Grŵp yn cael ei darparu gan yr is-adran Rheoli Risg mewn cydweithrediad â Chadeirydd y Grŵp.

Bydd dogfennaeth ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp yn cael ei chadw yn y ffolderi perthnasol i sianel Teams y Gweithgor Rheoli Risg.

## Adolygu

Bydd adolygiad o'r Cylch Gorchwyl yn cael ei gynnal gan y Grŵp bob blwyddyn.